# Cais i ymuno â’r Panel Dirprwyon a benodir gan Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Mae Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn cefnogi’r Gwarcheidwad Cyhoeddus i gyflawni ei swyddogaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Mae Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn penodi ac yn gweinyddu panel o ddirprwyon ar ran y Gwarcheidwad Cyhoeddus.

Penodir dirprwyon panel i weithredu gan y Llys Gwarchod pan nad oes unrhyw un arall yn fodlon nac yn gallu gweithredu fel dirprwy ar ran rhywun sydd heb alluedd meddyliol.

Er mwyn penodi i’r panel, mae’r Gwarcheidwad Cyhoeddus yn mynnu bod dirprwyon yn gallu dangos eu bod yn deall ac yn gallu cydymffurfio â’r Ddeddf Galluedd Meddyliol, Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, Rheoliadau Atwrneiaeth Arhosol, Atwrneiaeth Barhaus a Gwarcheidwad 2007, Safonau Dirprwyon Gwarcheidwad Cyhoeddus a’r disgwyliadau a nodir yn natganiad ymrwymiad y dirprwy panel.

Er mwyn gwneud cais, rhaid i ddirprwyon panelau fod yn un o'r canlynol:

- cyfreithwyr a reoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA)
- cyfrifwyr a reoleiddir gan Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr (ICAEW) neu Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA)
- cynghorwyr ariannol a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)
- elusennau a reoleiddir gan y Comisiwn Elusennau

Rhaid i ymgeiswyr fod yn ddirprwyon ar gyfer materion ariannol ac eiddo (PFA) ar hyn o bryd, neu fod wedi cael eu penodi’n ddirprwy PFA yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Bydd gofyn i ymgeiswyr fod wedi cael eu penodi’n ddirprwy PFA am o leiaf ddwy flynedd yn olynol.

Defnyddiwch y ffurflen gais hon i ddangos eich bod yn gallu cyflawni’r gofynion hyn.

Sylwer – mae ffurflen gais ar wahân ar gyfer Corfforaethau Ymddiriedolaeth.

Bydd penodiadau i’r panel yn amodol ar yr ymgeisydd yn cadarnhau ei ymrwymiad i fodloni disgwyliadau aelodau’r panel.

# Ffurflen Gais

**Enw**

**Sefydliad**

**Eich rôl chi**

**Cyfeiriad**

**Cod post**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif cyswllt**

**I ba gorff rheoleiddio ydych chi'n perthyn?**

**Ydych chi'n ddirprwy ar hyn o bryd?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

**Os nad ydych chi, pryd oedd y tro diwethaf i chi ddal y rôl hon?**

Diwrnod Mis Blwyddyn

**Y sefydliad roeddech chi'n gweithio iddo ar y pryd (os yw'n wahanol)**

**Ydych chi erioed wedi cael eich rhyddhau o ddirprwyaeth yn dilyn ymchwiliad neu achos o beidio â chydymffurfio gan y Gwarcheidwad Cyhoeddus neu bryder a godwyd gan drydydd parti?**

☐ Do ☐ Naddo

**Os ydych, rhowch fanylion.**

**Ydych chi'n aelod o'r panel ar hyn o bryd?**

☐ Ydw ☐ Nac ydw

**Os nad ydych, ond rydych chi wedi bod yn aelod o'r panel yn ystod y pum mlynedd diwethaf, rhowch ddyddiadau eich aelodaeth.**

Diwrnod Mis Blwyddyn

I gefnogi eich cais cwblhewch ddatganiad o addasrwydd o ddim mwy na 1000 o eiriau yn dangos pam eich bod yn credu eich bod yn meddu ar y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol i gyflawni rôl dirprwy panel. Byddwch yn cael eich asesu yn erbyn y meini prawf hanfodol canlynol:

- dealltwriaeth a phrofiad o reoli dirprwyaeth
- cydymffurfiaeth ragorol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol, Rheoliadau'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a Safonau Dirprwyon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- manylion sut byddwch yn sicrhau eich bod yn dal i wybod am y gyfraith achosionberthnasol a'r canllawiau diweddaraf a gyhoeddir gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus
- manylion eich gallu i gynyddu eich llwyth achosion dirprwyaeth ar fyr rybudd os bydd angen gwneud hynny

## Ardal ddaearyddol

**Os cewch eich penodi i'r panel, bydd disgwyl i chi dderbyn achosion o'r ardal ddaearyddol rydych yn gweithio ynddi.**

**Ydych chi'n gallu – e.e. drwy swyddfeydd mewn rhannau eraill o'r wlad – darparu gwasanaethau i baneli mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr? Os felly, dewiswch yr ardaloedd.**

- ☐ Canolbarth Lloegr
- ☐ Gogledd Lloegr
- ☐ Gogledd-ddwyrain Lloegr
- ☐ Gorllewin Lloegr
- ☐ De-ddwyrain Lloegr
- ☐ Cymru

Mae'r rhain yn cyfateb i gylchdeithiau llys, a byddai disgwyl i chi fynychu gwrandawiadau'n bersonol yn ôl yr angen.

Nodwch a fyddech chi'n fodlon derbyn achosion dirprwyaeth lles personol.

☐ Byddwn ☐ Na fyddwn

Nodwch a fyddai gennych chi ddiddordeb mewn cael eich penodi i banel gwarcheidwaid Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

☐ Byddwn ☐ Na fyddwn

Sylwch na fydd eich ateb i'r cwestiynau hyn yn cael unrhyw effaith ar ganlyniad eich cais i fod yn ddirprwy panel.Fel rhan o'r broses asesu, bydd Swyddfa'r eich Gwarcheidwad Cyhoeddus yn adolygu llwyth achosion presennol a diweddar i asesu sut rydych chi wedi cadw at y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Cod Ymarfer, Rheoliadau Atwrneiaeth Arhosol, Atwrneiaeth Barhaus a Gwarcheidwad Cyhoeddus a Safonau Dirprwyon Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus.

## Datganiad

**Rwy’n cadarnhau fy mod yn dymuno gwneud cais i ymuno â Phanellf  Dirprwyon Swyddfa’r Gwarcheidwad Cyhoeddus.**

**Os caf fy mhenodi, rwy’n cytuno i gadw at ddatganiad ymrwymiad dirprwy panel.**

**Mae’r holl wybodaeth yn y cais hwn yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth.**

### Llofnod

Dyddiad

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---|---|---|
| | | |